

Dyddiad cyhoeddi: 4 Mawrth 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

“Rydw i'n ysgrifennu atoch chi i ofyn am gopi o holl gyhoeddiadau a recordiadau Trafnidiaeth Cymru y gallwch eu darparu. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddiadau trenau a chyhoeddiadau gorsafoedd, ond nid yw wedi'i gyfyngu i hynny. Rydw i wedi gwneud yr un cais i LNER, a fu'n llwyddiannus, felly ni welaf unrhyw reswm pam na ddylai'r cais hwn fod yn llwyddiannus hefyd.

Pe gallech chi ddarparu'r wybodaeth hon, buaswn i'n gwerthfawrogi hynny'n fawr.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu ymholiadau pellach, mae croeso i chi gysylltu â mi yn y cyfeiriad hwn.

Ar ôl adolygu eich cais, nid ydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth y gwnaethoch chi ofyn amdani.

Mae TrC yn meddu ar yr wybodaeth hon. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth hon wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 38 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Iechyd a Diogelwch). Mae adran 38 yn darparu eithriad rhag datgelu gwybodaeth pe byddai'n rhoi unigolyn mewn perygl. Nid yw'r eithriad o reidrwydd yn delio â materion y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel materion iechyd a diogelwch, ac mae'n ystyried iechyd meddwl a chorfforol unrhyw unigolyn yn ogystal â'i ddiogelwch.

I ddefnyddio'r eithriad hwn, rhaid i awdurdod cyhoeddus ddangos bod cysylltiad achosol rhwng datgelu'r wybodaeth a rhoi unigolyn mewn perygl. Rhaid i'r awdurdod cyhoeddus hefyd ddangos y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o gael effaith andwyol ar iechyd meddwl, iechyd corfforol a diogelwch yr unigolyn ac nid mewn modd dibwys.

Mae defnyddio'r eithriad hwn hefyd yn amodol ar asesiad o fudd y cyhoedd.

Fel awdurdod cyhoeddus, mae TrC yn cydnabod bod angen bod yn agored ac yn dryloyw, yn ogystal â faint o ddiddordeb sydd gan y cyhoedd yng nghyswllt cyhoeddiadau TrC. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae'r risg i iechyd a diogelwch yn drech na hyn. Er enghraifft, gallai'r recordiad gael ei ddefnyddio mewn ffordd flinderus mewn gorsaf drenau i wrth-ddweud y cyhoeddiadau sy'n cael eu gwneud gan Reolwr yr Orsaf. Gallai hyn achosi i

deithwyr ruthro i blatfform arall anghywir a mynd ar y trêan anghywir. Byddai hyn yn achosi trallod sylweddol i unrhyw deithwyr fyddai'n cael eu twyllo fel hyn, a gallai hefyd beri i deithwyr beryglu eu diogelwch drwy ruthro i fynd ar y trêan anghywir ar blatfform arall mewn dryswch neu banig.

Mae TrC yn cael llawer o geisiadau am ein cyhoeddiadau awtomatig, a dyma ein hymateb safonol. Allwn ni ddim rhoi sylwadau am benderfyniadau a wnaed gan Gwmniau Gweithredu Trenau eraill i ddarparu'r wybodaeth hon.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fvdd "Gwvbodaeth Swvddogol neu Gvhoeddus".